CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 12 MAI 2009 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD.

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mr P J Wood (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Y Parch. H M Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S Halsall
Mr J Bader (Aelod)	Mr. D Carr
	Mrs. A Prescott-Bird
	Mrs. L Brough
	Mr. C Sanghera
	Mr. R Handscomb

Estynnodd yr aelodau groeso i Mr Sanghera a oedd newydd ymuno â'r Comisiwn fel Swyddog Arolygon ar secondiad o Gynulliad Cymru.

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 18 MAWRTH 2009

2.1 Cytunwyd ar y rhain.

3. MATERION YN CODI

Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol (MSFM)

3.1 Adroddwyd bod yr MSFM bellach wedi'i orffen ac roedd yn agos at gael ei lofnodi gan y Comisiwn a Chynulliad Cymru.

Arolwg Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr

3.2 Adroddwyd y cyhoeddwyd yr Adroddiad Terfynol a Chynigion ar gyfer Arolwg Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr.

Cynadleddau

3.3 Adroddodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi gwneud ymholiadau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) am gostau llai i'r Comisiwn gael stondin yn eu cynhadledd flynyddol sydd i ddod. Cytunwyd hyn gyda'u Prif Weithredwr ond ni dderbyniwyd cadarnhad ffurfiol eto. Gwnaed cynnydd o ran cael eitemau hyrwyddol ar gyfer cynadleddau yn y dyfodol a nodwyd digwyddiadau.

Fideo-gynadledda (VC)

3.4 Adroddodd yr Ysgrifennydd y byddai'n siarad ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru am y posibilrwydd o rannu eu cyfleusterau fideo-gynadledda. Nodwyd bod Cyngor

Celfyddydau Cymru wedi symud eu swyddfeydd i Fae Caerdydd yn ddiweddar a fyddai'n rhy bell i'r Comisiwn osod cyfleusterau fideo-cynadledda a rennir gyda nhw.

4. AROLWG CYMUNEDOL CAERFFILI – ADRODDIAD CYNIGION TERFYNOL

4.1 Adroddwyd bod yr adroddiad drafft ar y Cynigion Terfynol wedi'i anfon at gynghorydd cyfreithiol y Comisiwn i gael sylwadau a chyflwynwyd copi o'r sylwadau a dderbyniwyd. Cododd y sylwadau hefyd ymholiad am rifo'r atodiadau i'r adroddiad. **Cytunwyd** y câi'r sylwadau hyn eu hymgorffori i'r adroddiad ac y câi'r atodiadau eu gwirio.

4.2 Adroddwyd y derbyniwyd ateb yn ddiweddar fel ymateb i lythyr yr oedd y Comisiwn wedi'i anfon at bum preswylydd Meadowgate yng Nghymuned Maesycwmer yn ceisio eu barn ar y cynnig i symud eu heiddo i mewn i Gymuned Pontllanfraith. Roedd yr ateb gan un o'r preswylwyr wedi mynegi cefnogaeth am gynnig y Comisiwn. **Cytunwyd** y dylid cynnwys yr ateb yn yr adroddiad Cynigion Terfynol a gâi ei gyfieithu a'i gyhoeddi wedyn.

5. AROLWG CYMUNEDOL ABERTAWE – ADRODDIAD CYNIGION DRAFFT PELLACH

5.1 Adroddwyd bod un o'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd a oedd yn rhoi cynnig nad oedd wedi'i drafod yn flaenorol wedi'i gamddehongli gan yr Ysgrifenyddiaeth ac wrth archwilio ymhellach roedd angen edrych eto ar yr awgrym a wnaed yn y gynrychiolaeth. Roedd hyn yn ymwneud â throsglwyddo ardal a oedd yn cynnwys dau adeilad o Gymuned Pennard i Gymuned Llandeilo Ferwallt. Y gred oedd yn gynharach fod mynediad at yr adeiladau hyn drwy Bennard, fodd bynnag, darganfuwyd yn ddiweddarach fod mynediad trwy Landeilo Ferwallt yn unig. Roedd ymweliad safle â'r ardal wedi cadarnhau bod hyn yn wir ac felly cafodd cynnig bod yr ardal yn cael ei throsglwyddo o Gymuned Pennard i Gymuned Llandeilo Ferwallt ei gynnwys yn yr adroddiad Cynigion Drafft Pellach. Nododd yr Aelodau'r cynnig ychwanegol hwn yn yr adroddiad. **Cytunwyd** y dylid cyfieithu a chyhoeddi'r Cynigion Drafft Pellach.

6. DATBLYGU MODELAU I GATEGOREIDDIO CYNRYCHIOLAETHAU AR GYFER ARDALOEDD GWLEDIG

6.1 Barn yr aelodau oedd er bod y system modelu a ddefnyddir gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i'r Alban (LGBCS) yn ddefnyddiol roedd gwahaniaethau sylweddol rhwng yr Alban a Chymru. Roedd trefniadau etholiadol llywodraeth leol ar gyfer yr Alban yn ffafrio isadrannau â sawl adran gydag o leiaf 3 chynghorydd ac nid oedd gofyn iddynt lynu at flociau adeiladu megis ffiniau cymunedol neu ffiniau wardiau cymunedol.

6.2 Roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi edrych ar a allai'r system a ddefnyddir gan LGBCS gael ei chymhwyso i Gymru a gwelwyd bod angen llai o gategorïau gan nad oes gan Gymru ddinasoedd mor fawr â'r rhai yn yr Alban nac ardaloedd gwledig â chyn lleied o boblogaeth. At hyn, byddai'n rhaid i'r band isaf i Gymru fod â'r gymhareb o 1:1,750 a roddwyd yn y Cyfarwyddiadau. Cafodd model ei lunio ar gyfer Cymru

gyda meini prawf wedi'u haddasu ar gyfer y bandiau ond y gred oedd y byddai angen cyfiawnhau'r cymarebau a ddewiswyd ar gyfer pob band i gyfranogwyr.

6.3 Ystyriodd y Comisiwn fod pedwar dewis posibl y gellid eu cymhwyso i'r arolygon etholiadol:

1. Cynnal yr arolygon fesul ardal;
2. Defnyddio'r model a luniwyd i Gymru a chyfiawnhau'r cymarebau a ddefnyddiwyd ar gyfer pob band;
3. Cymhwyso'r gymhareb 1:1,750 a roddwyd yn y Cyfarwyddiadau'n haearnaidd;
4. Defnyddio'r gymhareb 1:1,750 ond ei chymhwyso fel ei bod yn amrywiol er mwyn cael cydraddoldeb o ran cynrychiolaeth.

6.4 Ystyriwyd bod opsiwn 4 yn well oherwydd na fyddai'n ddymunol i gyflwyno system newydd ar gyfer cynnal yr arolygon ar ôl i'r broses ddechrau. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn defnyddio'r gymhareb o 1:1,750 fel man cychwyn ac wedyn edrych ar yr effaith ar hyn o'r rheolau a gofynion eraill megis cydraddoldeb mewn isadrannau etholiadol, cydymffurfio â'r blociau adeiladu cymunedol gwaelodol a'r mater o gapio. Dylid llunio cynlluniau ar gyfer pob awdurdod lleol wedyn sy'n dangos yr effaith ar y gymhareb 1:1,750 o gymhwyso'r rheolau a'r gofynion eraill ac esbonio unrhyw amrywio o'r gymhareb 1:1,750.

6.5 Gosodwyd llythyr gan Weinidog Llywodraeth Leol Cynulliad Cymru a'i nodi gan yr Aelodau. **Cytunwyd** y dylid ceisio sylwadau ar gynnwys y llythyr gan gynghorydd cyfreithiol y Comisiwn. **Cytunwyd** y dylid cynnwys y llythyr mewn copïau o lyfryn canllawiau'r arolygon etholiadol yn y dyfodol ac mewn cyflwyniadau i'r awdurdodau lleol.

7. AROLWG O RAN O'R FFIN RHWNG Y SIROEDD WEDI'U CADW, POWYS A MORGANNWG GANOL

7.1 Adroddwyd bod cynrychiolaeth hwyr wedi'i derbyn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ers drafftio'r adroddiad, yn cefnogi cynnig y Comisiwn. Hefyd cafodd sylwadau a dderbyniwyd gan gynghorydd cyfreithiol y Comisiwn eu hymgorffori i'r adroddiad. **Cytunwyd** y dylid cyfieithu a chyhoeddi'r adroddiad hwn bellach.

8. CYNLLUN STRATEGOL A GWEITHREDOL

8.1 Adroddwyd bod y Cynllun Strategol wedi'i ddrafftio gan yr ymgynghorydd a gyflogwyd gan y Comisiwn. Roedd yr ymgynghorydd hefyd wedi awgrymu y dylid ond cyhoeddi'r Cynllun Strategol ar wefan y Comisiwn ac y dylid anfon y ddolen at y ddogfen ar y wefan drwy'r e-bost i bobl sydd â diddordeb. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn ond yn cyhoeddi'r Cynllun Strategol ar eu gwefan ac yn anfon y ddolen drwy'r e-bost at bobl sydd â diddordeb. Ystyriodd y Comisiwn nifer o newidiadau i'r Cynllun Strategol a **chytunwyd** y câi'r fersiwn diwygiedig ei anfon drwy'r e-bost at y Dirprwy Cadeirydd ac at yr Aelod i gael eu sylwadau cyn ei anfon at y Cadeirydd.

8.2 Nodwyd y fersiwn diweddaraf o'r Cynllun Gweithredol a'i gymeradwyo. Ystyriwyd bod angen diweddaru'r adroddiad Iechyd a Diogelwch sy'n ffurfio rhan o'r Cynllun. Pan gaiff ei ddiweddaru gellir ei anfon at yr Isadran Noddi i'w drafod yn y cyfarfod cyswllt nesaf.

9. AROLYGON ETHOLIADOL

9.1 Nododd y Comisiwn y cynnydd a wnaed ar y gyfran gyntaf o arolygon etholiadol. O'r ail gyfran o arolygon roedd Rhondda Cynon Taf a Sir Fôn wedi cychwyn. Cafodd Caerdydd a Merthyr Tudful eu gosod yn ôl i aros am i'r Gorchmynion ar gyfer arolwg Cymunedol Caerdydd ac arolwg ffin Powys a Merthyr gael eu gwneud gan Gynulliad Cymru. Fodd bynnag, nid ystyriwyd y byddai'r llithriad bach hwn yn cael unrhyw effaith ar yr amserlen gyffredinol ar gyfer yr arolygon. Cafodd Gorchymyn ei wneud ers hynny gan y Cynulliad i Ferthyr ac felly gallai'r arolwg etholiadol hwn gychwyn. **Cytunwyd** y byddai arolwg Merthyr Tudful yn cychwyn cyn gynted ag y bo modd wrth aros i ddyddiad gael ei gytuno ar gyfer y cyflwyniad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

9.2 O ran yr arolygon cymunedol disgwylid y câi adroddiad Terfynol Caerffili ei gyhoeddi fis Mehefin, câi adroddiad Drafft Pellach Abertawe ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mai, a châi adroddiad Terfynol drafft Blaenau Gwent ei gyflwyno i'r cyfarfod fis Mehefin. Câi'r crynodeb o gynrychiolaethau ar gyfer Bro Morgannwg eu cyflwyno i'r cyfarfod fis Mehefin, fodd bynnag, disgwylid y byddai rhywfaint o anhawster o ran pennu'r lefel o gefnogaeth gan y cyhoedd o blaid neu yn erbyn rhannu Cymuned Saint-y-brid ac na fyddai'n bosibl i'r Comisiwn wneud penderfyniad cadarn yn seiliedig ar y cynrychiolaethau a dderbyniwyd. Ystyriodd y Comisiwn efallai y bydd angen trefnu refferendwm ar y mater. **Cytunwyd** y câi crynodeb o'r cynrychiolaethau ei anfon drwy'r e-bost at yr Aelodau cyn gynted ag y byddai ar gael er mwyn iddynt benderfynu ar ba gamau gweithredu fyddai eu hangen os unrhyw beth.

9.3 Disgwylid y câi adroddiadau ar gyfer arolygon cymunedol a gynhaliwyd gan Dorfaen, Sir Benfro a Cheredigion eu derbyn erbyn mis Mehefin.

10. ADRODDIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – CYNNYDD O RAN EI ROI AR WAITH

10.1 Nododd yr Aelodau'r sefyllfa o ran rhoi argymhellion Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar waith.

11. CYFARFOD BLYNYDDOL A GWEITHDY

11.1 Ystyriodd y Comisiwn y lleoliadau awgrymedig ar gyfer Gweithdai Blynyddol 2009. **Cytunwyd** mai Wrecsam, Merthyr ac Abertawe fyddai'r dewis leoliadau gan na chawsant eu defnyddio o'r blaen ar gyfer cyfarfodydd blynyddol. Cymeradwywyd y dewis o leoliadau yn Wrecsam ac Abertawe yn ddibynnol ar argaeledd a gwnaed awgrymiadau ar gyfer lleoliad posibl ym Merthyr.

11.2 **Cytunwyd** y byddai'n ddymunol cael hwylusydd allanol ar gyfer y gweithdai. **Cytunwyd** y dylid galw 'Adroddiad Blybyddol a Gweithdy' ar y gweithdai. Awgrymiadau ar gyfer pynciau am y gweithdai oedd:

- Adroddiad cynnydd a chanfyddiadau hyd yn hyn ar yr Arolygon Etholiadol;
- Adborth o weithdai blaenorol;
- Ymrwymiad cyn-ymgynghori; a
- Cynllun Strategol - gwelliannau posibl.

11.3 **Cytunwyd** y dylid cyfyngu'r gweithdai i uchafswm o 80 o bobl ac os eid yn uwch na hynny câi dyddiadau eu gosod ar gyfer gweithdai ychwanegol yn ôl yr angen. **Cytunwyd** y câi cyfarfodydd y Comisiwn ar gyfer mis Hydref, mis Tachwedd a mis Rhagfyr eu gosod i gyd-fynd â dyddiadau'r gweithdai.

12. ADRODDIAD CYFARFOD RHYNG-GOMISIWN 2009

12.1 Adroddodd y Dirprwy Gadeirydd a'r Dirprwy Ysgrifennydd eu bod wedi mynd i'r cyfarfod rhyng-gomisiwn yn Llundain. Roeddent wedi ei weld yn ddiddorol a gwnaed rhai cyflwyniadau da. Roedd y ddau yn meddwl y gallai fod wedi cael ei drefnu'n well gyda mwy o feddwl yn cael ei roi i mewn i'r agenda. Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod rhyng-gomisiwn i'r Aelodau a'u nodi.

13. TAFLEN WYBODAETH AR GYFER CYNADLEDDAU

13.1 Nododd yr Aelodau daflen wybodaeth y Comisiwn a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth. Roeddent yn meddwl y dylid tynnu logo'r Comisiwn o'r blaen a gwneud rhywfaint o olygu i'r cynnwys. **Cytunwyd** y byddai'r Aelod yn golygu cynnwys y daflen. Os yn bosibl dylid ennill yr arwydd Crystal Clear cyn cyhoeddi'r daflen.

14. UNRHYW FATER ARALL

Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus: Arolwg o Dreuliau ASau

14.1 Nododd yr aelodau'r ddogfen hon. **Cytunwyd** na fyddai angen i'r Comisiwn anfon tystiolaeth.

Dweud eich Dweud am Wasanaethau Cymraeg

14.2 Nododd yr Aelodau'r ddogfen hon.

Trefniadau Etholiadol: Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008

14.3 Adroddwyd y gwnaed Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008 mewn perthynas ag arolwg cymunedol a gwblhawyd gan y Comisiwn fis Chwefror 2008. Roedd y newidiadau i'r ffiniau cymunedol yn effeithio ar y ffin rhwng etholiadau seneddol Pontypridd ac

Aberogwr. **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn ddweud wrth Gomisiwn Ffiniau Cymru am y newidiadau hyn er mwyn iddynt fynd i'r afael â'r anghysondebau sy'n digwydd fel canlyniad yn yr etholiadau seneddol.

15. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

15.1 Gosodwyd y dyddiadau ar gyfer y cyfarfod nesaf fel:

Dydd Mercher 17 Mehefin 2009
Dydd Mercher 15 Gorffennaf 2009
Dydd Mawrth 11 Awst 2009
Dydd Iau 17 Medi 2009
Dydd Mercher 7 / 8 Hydref 2009
Dydd Mawrth 24 Tachwedd 2009
Dydd Mercher 16 Rhagfyr 2009